

Trwy ebost

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i BGC Torfaen

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Darganfu fy nhîm bod siarad yn gyson â'ch swyddogion cynorthwyol a chael y cyfle i fynychu gweithdai eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ddefnyddiol iawn ar gyfer deall sut yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r dull yr ydych wedi ei fabwysiadu ar gyfer cynllunio llesiant, a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion hyn a gweithredu mewn dull gwahanol. Fel y byddant wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu cyson rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol a'i fod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Deallaf eich bod wedi bod yn gweithio'n galed ar ddull o weithio sy'n troi casgliadau eich asesiad llesiant yn amcanion a chamau drafft. Diolch am rannu cyfnod cynnar eich cynllun llesiant drafft; rwy'n gwerthfawrogi bod hwn yn dal yn cael ei ddatblygu. Gwelaf eich bod wrth gychwyn wedi cytuno ar themâu lefel uchel o'ch asesiad ac yn awr wedi distyllu'r rhain yn saith amcan llesiant fel a restrir isod a'ch bod yn gweithio ar ddatblygu camau'r adran 'sut i'w gyflawni' yn eich cynllun drafft. Credaf fod fy nhîm eisoes wedi bod yn ddefnyddiol wrth gynghori eich swyddogion cynorthwyol ar yr ymagwedd hon.

Amcan 1 – datblygu rhwydwaith ymarferol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n cynorthwyo anghenion llesiant cyfredol a dyfodol poblogaethau lleol.
Amcan 2 - datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
Amcan 3 - rhoi'r cychwyn gorau i blant a phobl ifanc mewn bywyd.
Amcan 4 - atal neu gyfyngu ar effaith cyflyrau iechyd difrifol drwy gynorthwyo ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda
Amcan 5 -mynd i'r afael â phatrymau tlodi sy'n pontio cenedlaethau a datblygu cydnerthedd economaidd.
Amcan 6 – gwella sgiliau lleol drwy gynllunio gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.
Amcan 7 – creu cymunedau diogel a hybu cydlyniad cymunedol.

Buaswn yn eich annog i barhau i ddatblygu cydgysylltiadau rhwng yr amcanion ac i barhau i gytuno ar y dull o gyflawni eich camau. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut mae eich amcanion yn unigol, ac fel set gyfunol, yn maximeiddio eu cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant, drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio, yn hytrach na gwneud cysylltiad yn unig â nifer bach o nodau llesiant lle mae yna gysylltiad clir ac uniongyrchol.

Bwriad gosod amcanion a champau yw i ystyried lle gall BGCau gael effaith cyfunol a phwerus. I wneud hyn mae angen i chi feddwl yn wahanol, bod yn uchelgeisiol ac ailfeddwl am y modd yr ydych yn defnyddio adnoddau, a fydd yn anochel yn golygu rhoi'r gorau i rai pethau. Mae angen i chi ddangos eich bod wedi archwilio'r modd yr ydych yn cyfrannu tuag at nodau llesiant a bydd hyn yn rhoi i chi ddarlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys, yn egluro eich rolau fel sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC a'ch galluogi i facsimeiddio'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau. Bwriad canllaw [NESTA a'r Alliance for Useful Evidence](#) yw helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio ymchwil a gwybodaeth i gasglu ymagweddau'n effeithiol, a fydd, efallai, yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud o flaenoriaethau i amcanion a champau, ar gyfer cyflwyno newid.

Gan eich bod yn cynllunio i redeg gweithdy ar sut i symud ymlaen gyda'ch syniadau ar gamau drafft, byddaf yn ymroi i'ch cyngori ar eich ymagwedd tuag at ddatblygu'r camau i gwrdd â'ch amcanion drafft. Mae fy nghyngor mewn dwy ran - yn gyntaf fe'i bwriedir i'ch helpu i ystyried sut y gallech ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio 'busnes-fel-arfer' a macsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol mewn dull effeithiol. Yn ail, yn seiliedig ar flaenoriaethau, mae fy nghyngor yn rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais '[Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#)' sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Nid busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a champau. Yn y gorffennol, rydym wedi dibynnu ar themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud beth bynnag. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, beth ydych yn ei wneud i gyfrannu tuag at ein gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwyllianau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol, a sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Torfaen?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn y ffordd hon yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae'n braf clywed eich bod yn cydnabod hyn, a'ch bod yn rhedeg eich cyfarfodydd fel gweithdai. Mae hefyd yn

galonogol i glywed eich bod wedi nodi'r maes hwn fel un sydd ag angen i chi ffocysu arno ar y cyd i ddangos a gweithredu'r pum dull o weithio. Rwyf wedi cynghori pob BGC i roi amser o'r neilltu i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio'r pwysau a'r tensiynau wrth gyflawni pob un o'u hamcanion. Mae [Saerniaeth Dyfodol Cynaliadwy](#) gan Academi Cymru yn dweud yn glir sut mae angen i ymddygiadau arweinwyr newid yn wyneb'r heriau yr ydych wedi eu hamlygu yn eich cynllun drafft. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i helpu i archwilio gwaith eich bwrdd ar ddatblygu sefydliadol ac wrth lunio eich ymddygiadau chi eich hunain a sut mae angen i chi newid.

Cefais fy nghalonogi i glywed eich bod eisoes yn cynnal sgysiau fel BGC am y modd y gallwch weithio'n wahanol ac yn manteisio ar y cyfleoedd i redeg cynlluniau pilot gyda'ch gilydd. Wrth i chi symud yn eich blaen, dylai hyn ffocysu ar weithredu - pa ymagweddau newydd y byddwch yn eu mabwysiadu gyda'ch gilydd tuag at y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a macsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ar gyfer eich cynllun llesiant, roeddwn yn falch i weld eich bod wedi cynnwys adran ar y cychwyn yn egluro sut mae'r pum dull o weithio wedi ffurfio eich ymagwedd, ond mae angen i chi dalu sylw i hyn drwy eich holl gynllun i ddangos sut yr ydych wedi ystyried sut y gallwch facsimeiddio'r cyfraniad yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd (ac y gallech ei wneud yn y dyfodol) tuag bob un o'ch nodau llesiant, mewn perthynas â phob amcan drafft a'r camau yr ydych yn eu gosod. Wrth wneud hyn dylech ddatgan yn glir beth a olyga pob amcan i Dorfaen a sut mae'n wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol.

Buaswn yn eich cynghori y bydd angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar eich gweithredu? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd arnoch eu hangen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Bydd y gwaith yr ydych wedi ei gomisiynu gan FGC ardal Gwent, gobeithio, yn rhoi senarios sy'n ymwneud â'r dyfodol yn eich ardal. Gall y rhain fod yn hynod bwerus ar gyfer cychwyn trafodaeth am y cyfleoedd a'r risgiau a'r gweithredu y gallwn ei gyflawni ar gyfer yr hirdymor.

I drwytho'ch gweithredu, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalu cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau, i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Rydw i'n argymhell yr amser a neilltuir gan eich swyddogion cynorthwyol i weithio ar draws ardal Gwent ac rwy'n falch i glywed am y cydweithio cadarnhaol a'r ymagweddau tuag at dreialu sy'n digwydd fel canlyniad i hyn. Rwyf hefyd yn falch i glywed eich bod yn ystyried y gwahanol berthynas rhwng partneriaethau rhanbarthol a lleol, a ble y gall y bydd angen i'r ymyriadau mwyaf effeithiol ddigwydd er mwyn mynd i'r afael â'r materion yr ydych wedi eu nodi yn eich asesiad llesiant. Dywed fy nhîm wrthyf fod pryder wedi ei fynegi yn eu sgysiau gyda chi ynglŷn â chwalu seilos a'r strwythurau llywodraethu newydd i wneud penderfyniadau effeithiol. Rwy'n cydnabod bod hon yn broses gymhleth ond mae'n bwysig bod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn mewnwelediadau, her adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau hyn, sut fedrai eich sefydliadau gydweithio'n well. Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn cwrdd yn effeithiol â'ch amcanion. Gallai hyn gynnwys adleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau, ac, o'r pwys pennaf, grynhoi adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych chi wedi symud tuag at wireddu'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Nid yw'n ddigon i fapio amcanion unigol yn erbyn y nodau i arddangos integreiddio. Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maxsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Roeddwn yn falch i glywed eich bod wedi cychwyn ystyried y rhyng-gysylltu rhwng eich amcanion i'ch helpu i drwytho eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol y gallech eu cymryd a buaswn yn eich annog i barhau i wneud hyn mewn dull bwriadol ac eglur. Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn

dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Mae fy nhîm wedi siarad yn gadarnhaol am y gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel Gwent-gyfan a bydd gennyf wir ddiddordeb mewn deall y manteision a fydd yn deillio o hyn wrth i ni symud tuag at gyflawni cynlluniau llesiant. Fel BGC, ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi rhwng sefydliadau sy'n aelodau a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Rwyf yn dymuno gweld y BGC yn canolbwyntio'n gyson at ennyn ymgyfraniad pobl yn natblygiad amcanion llesiant ac yn mynd tu hwnt i'r ymgynghori arferol a'r ymgysylltu ad hoc. Mae eich gwaith fel BGC yn ymwneud â sut y gallwch wella eu bywydau, felly sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd y bobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i wella ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau, yn arbennig y grwpiau hynny sy'n anodd eu cyrraedd? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Mae eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyrraedd y lefel hwn o gynnydd mewn asesu llesiant ar gyfer eich ardal, gan syntheseiddio'r dystiolaeth hon i mewn i flaenoriaethau lefel uchel, gan greu dadansoddiad ymateb cynhwysfawr iawn tra'n ymgysylltu ag ystod eang o bobl i symud eich cynllunio llesiant yn ei flaen. Ond rhaid i mi bwysleisio mai eich arweinyddiaeth chi sy'n ofynnol ar gyfer mabwysiadu dull newydd o weithio. Rwyf yn ymwybodol y gellir gweld y Ddeddf fel un peth arall i'ch sefydliadau gydymffurfio ag ef, a'r BGC fel cyfarfod arall sy'n rhaid ei fynychu. Ond mae'r Ddeddf yn un sy'n grymuso, yn ffordd o herio'r dulliau yr ydym bob amser wedi eu mabwysiadu i geisio gwneud mwy o synnwyr i bobl Cymru - yn awr ac yn y dyfodol. Mae gen i rôl i adnabod a lliniaru rhwystrau, ond dim ond chi, fel uwch-arweinyddion, fedr wneud i'r newid hwn ddigwydd a chreu BGC sydd mewn gwirionedd yn cyflawni newid.

Mae angen i'r arweinyddiaeth hon ynghyd â gweithio mewn partneriaeth dreiddio i holl lefelau eich sefydliadau. Mae cynrychiolaeth gyson, a sut yr ydych yn dwyn negeseuon yn ôl o'r BGC i'ch sefydliadau chi eich hunain yn hollbwysig ar gyfer adeiladu cysylltiadau ac ennyn gweithrediadau. Nid uchafbwynt eich holl waith cyfredol yw'r cynllun llesiant, ond cyfle i integreiddio a chydweithio mewn dull manteisiol ar lefel uwch a lefel dylanwadol. Mae cyfleu sut mae eich gwaith chi fel BGC yn bwysig i'ch timau uwch reoli chi eich hunain a defnyddio'r cynllun

llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau yn hollbwysig ar gyfer creu'r diwylliant sydd angen ei newid yr ydych wedi ei amlygu yn eich trafodaethau gyda fy nhîm. Wrth i chi ddatblygu eich gwaith ar ddatblygiad sefydliadol, bydd angen i chi herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol.

Wrth wneud hynny bydd angen i chi ddangos sut mae pob un o'ch sefydliadau yn cymryd pob cam rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan fod amcanion unigol cyrff cyhoeddus wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCau a chyrrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno sicrhau nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono neu gyfarfodydd partneriaethau eraill.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. Mae gen i ddi-ddordeb i weld sut mae gwahanol FGCau yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Gwn mai dyma'r achos yn Nhorfaen ac mae aelod o fy nhîm wedi mynychu is-grŵp cynllunio llesiant ac yn hapus iawn gyda'r ymrwymiad aml-asiantaeth a ddangoswyd yno. Ond gwn bod yna rai partneriaid yn dal yn amharod i gydweithio ar bob lefel ar draws Cymru, sy'n hollbwysig ar gyfer gwireddu unrhyw syniad o newid. Mynychodd aelod o fy nhîm eich Grŵp Gweithredu yn Awst a chael ei chaloni gan yr ymrwymiad aml-asiantaeth a ddangoswyd yno ac aeddfedrwyd y trafodaethau ar rannu gwybodaeth a chydweithio i ddatblygu adnoddau ar y cyd ar gyfer y BGC. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno meddwl am osgoi gweithio gyda phartner amlwg wrth arwain datblygiad y darnau hyn o waith. Er enghraifft, sut fedrai cael partner arall heblaw'r Bwrdd Iechyd neu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer eich Gweithdai Her ar iechyd, ehangu ffrâm eich trafodaethau? Gwn fod yna bartneriaid sy'n dal yn amharod i gydweithio ar bob lefel ar draws Cymru, sy'n hollbwysig ar gyfer cyflawni unrhyw syniad o newid. Mae rhai BGCau eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith mwy clos, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch-arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae yna nifer o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol, megis [How to Design and Facilitate Multi-stakeholder Partnerships](#), [Leading Culture Change](#) a [Stepping up: A Framework for Public Sector Leadership on Sustainability](#). Bydd hyn yn ei gwneud yn angenrheidiol i chi, pobl mewn safleoedd arweinyddiaeth, i chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau angenrheidiol. Gobeithiaf y byddwch yn parhau i arwain ymagwedd seiliedig ar wybodaeth tuag at ddarganfod datrysiadau gwahanol i'r modd y mae pethau wedi eu gwneud yn y gorffennol.

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd gan bob BGC, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu ymagwedd wahanol tuag at ddrafftio eu hamcanion llesiant ac y byddant yn mynd ati i gyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Mae ail ran fy nghyngor yn ceisio eich helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar gasgliadau eich asesiad, wedi blaenoriaethu materion drwy ymgysylltu gyda chi ac yn mabwysiadu ymagwedd ystyriol tuag at ddrafftio amcanion a chamau. Mae'r adran hon o fy nghyngor yn seiliedig ar eich amcanion, a'i bwriad yw rhoi syniadau, gwybodaeth a chysylltiadau i chi a allai helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Torfaen.

Mae pennu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer eich Cynllun Llesiant yn lle da i gychwyn, ond hoffwn weld sut mae eich ymchwil a'ch dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol, a'r hyn yr ydych wedi ei ddarganfod am asedau a chryfderau eich cymunedau yn Nhorfaen, ochr yn ochr â'r problemau a wynebir ganddynt, wedi llunio'r weledigaeth hon a'r amcanion a'r camau olynol a gymerwyd i'w gwneud yn berthnasol i'r bobl sy'n byw yno. Sut ydych chi wedi ennyn ymgyfraniad pobl Torfaen wrth ddatblygu'r weledigaeth hon? A fyddant yn teimlo bod hyn yn berthnasol iddynt hwy?

Oes yna dueddiadau hirdymor ar gyfer cymunedau arbennig a fydd yn eich barn yn gwaethygu os na fyddwch yn gweithredu? Pa gymunedau fyddai'n elwa, a sut? Beth fedrwyd chi ei wneud yn wahanol i gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant? Ym mha fodd y mae'r hyn yr ydych yn ei gynnig yn mynd i fod yn wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol? Wrth egluro pam yr ydych wedi dewis amcan hoffwn ddeall o'ch dadansoddiad a'ch asesiad, nid yn unig yr hyn â'i sbardunodd, ond hefyd beth yw'r cyfle a gyflwynir gan yr amcan hwn ar gyfer cydweithio - pam fod angen ymateb ar y cyd?

Gwn y byddwch yn parhau i weithio ar hyn drwy gydol y flwyddyn nesaf, a'ch bod yn gweithio ar draws Gwent i helpu i ystyried datrysiadau newydd. Bydd gennyf wir ddiddordeb i weld y dysgu hwn yn cael ei rannu ac rwy'n dymuno gweld sut yr ydych yn dangos y dull hwn o feddwl yn eich cynllun llesiant cyhoeddus, hyd yn oed os ydy hyn yn nodi nad yw'r atebion gennych eto ac yn egluro beth yr ydych yn bwriadu ei wneud am y peth!

Amcan 1 - datblygu rhwydwaith ymarferol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n cynorthwyo anghenion llesiant cyfredol a dyfodol poblogaethau lleol

Mae eich asesiad llesiant yn nodi pwysigrwydd asedau amgylcheddol yn Nhorfaen ac yn amlygu'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Roeddech hefyd wedi cychwyn nodi tueddiadau hirdymor perthnasol a fedrent gyda'i gilydd waethygu'r effaith ar lesiant pobl leol. Adlewyrchir rhai o'r materion hyn yn eich rhesymau dros ddewis yr amcan hwn mewn termau cyffredinol heb nodi unrhyw effaith penodol y byddwch yn ei gael ar lesiant amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn Nhorfaen wrth i chi weithio tuag at gyflawni'r amcan hwn.

Er enghraifft, nododd y trafodaethau yn eich Grŵp Gweithredol bwysigrwydd ansawdd llesiant amgylcheddol i dwristiaeth yn yr ardal ar gyfer cynorthwyo llesiant economaidd. Beth yw'r tueddiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a allai ddylanwadu ar y mater hwn a'ch ymyriadau posibl? Sut fedrwyd chi, fel uwch-swyddogion, greu sefydliadau sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang gan gyfrannu at Dorfaen gydnherth a chynorthwyo llesiant economaidd? Beth fedrwyd chi ei wneud i liniaru effeithiau colli amgylchedd? I wneud hyn,

bydd angen i chi ddeall rolau ac ysgogiadau eich gilydd, a deall arwyddocâd y materion hyn, ynghyd â'r effaith y gallai ei gael ar eich sefydliad a'ch adnoddau.

Mae'r saith maes yn y Ddeddf: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg yn weithgareddau craidd sefydliadol lle byddai defnyddio'r pum dull o weithio'n sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio eich gwaith. Ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft, rwy'n dymuno gweld cydnabyddiaeth o'r hyn y medrwyd ei wneud fel sefydliadau unigol i gymryd camau i gwrdd â'r amcan a maccsimeiddio eich cyfraniad i'w saith nod llesiant, drwy gydweithio ag eraill tu allan i'r BGC, neu ddylanwadu ar sefydliadau eraill neu bartneriaethau eraill wrth wneud hynny.

Er enghraifft, gyda'ch gilydd rydych yn gyfrifol am lawer o ystâd y sector cyhoeddus. Dylai'r modd yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol, adeiladau, seilwaith a manau agored cyhoeddus a chymunedol eraill (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol), i gyd gael eu hystyried, ac mae'r arf [Llunio fy Nhref](#) o Gomisiwn Dylunio Cymru, yn adnodd rhyngweithiol ar gyfer creu manau cymunedol y gallech fanteisio arno. Hefyd mae'r adroddiad [Closing the Circle](#) ar yr economi cylchol ac Amgylchedd Cymru yn adroddiad defnyddiol a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru sy'n rhoi enghreifftiau ymarferol o ble fedr y sector cyhoeddus ymroi i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol iawn i chi fel BGC. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#) yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant sydd wedi eu profi, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn maccsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac wedi dangos y gall brysuero iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol.

Bydd cydweithio gyda busnesau ar sut yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn hefyd yn bwysig ar gyfer gwarchod a gwella'r tir ac atal bioamrywiaeth rhag dirywio a cholli cynefin rhag dirywio. Sut fedrwyd chi fanteisio ar y berthynas dda yr ydych wedi ei datblygu gyda busnesau lleol pan wnaethoch chi wneud eich asesiad? Mae gan yr [IUCN](#) lawer o adnoddau ar gyfer gwneuthurwyr polisi sy'n eu helpu i weithio gyda busnesau i wneud achos dros ennill bioamrywiaeth. Ar gyfer pob un o'ch camau, mae angen i chi ddefnyddio'r diffiniadau o'r nodau llesiant i feddwl am sut y gallwch wneud rhywbeth gwahanol ac ennill yr effaith mwyaf posibl, a sut y gallwch integreiddio ar draws llawer o'ch camau drafft. Er enghraifft, sut fedrwyd chi alluogi gwirfoddoli corfforaethol sy'n ymroi i wella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol? Pa gynlluniau gwirfoddoli fedrai helpu i greu Casnewydd sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang? Sut fedr pobl annog cydraddoldeb drwy eu gwaith gwirfoddol a chydlynid o fewn rhai o'ch cymunedau? Mae gan [Busnes yn y Gymuned](#) ystod o ddulliau ymarferol a fedr helpu busnesau i weithio gyda'i gilydd a gweithredu i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion amgylcheddol a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Mae BGCau eraill ag amcanion tebyg yn cynnwys Powys, Caerffili, Sir Fynwy a Bro Morgannwg.

Amcan 2 - datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Hoffwn weld sut y byddwch yn cynnwys yn eich cynllun nid yn unig y modd y mae'r hinsawdd yn debyg o newid ond y peryglon a'r cyfleoedd yr ydych wedi eu nodi yn eich asesiad llesiant. Mae dealltwriaeth o gyfleoedd a pheryglon i lesiant yn Nhorfaen fel canlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn hollbwysig ar gyfer trwytho'r canlyniad yr ydych yn dymuno ei weld yn deillio o'r amcan hwn a'r camau y bydd angen i chi eu cymryd i'w gyflawni.

Yn ogystal â manteisio ar Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU buaswn yn eich cyngori i dwrio'n ddyfnach i mewn i'ch data i archwilio'n fwy trwyadl beth a olyga hyn i Dorfaen yn y dyfodol, ar draws pob un o'r pedwar piler llesiant. Mae adroddiad diweddar [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn nodi'r cyfrifoldeb sy'n eiddo i ni i gyd i genedlaethau'r dyfodol i weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd yn ogystal â darparu ymagwedd ryng-ddisgybiaethol i ddatrysiadau ymarferol. Gwnaeth llifogydd effeithio ar gartrefi a busnesau llynedd mewn nifer o siroedd ac mae asesiadau llesiant yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar lesiant pobl yn hir ar ôl y digwyddiad. [Mae'r niwed blynyddol a ddisgwyllir ar hyn o bryd i eiddo preswyl yng Nghymru yn £22 miliwn](#), felly mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau'n hollbwysig ar gyfer ei atal. Hoffwn weld y BGC yn ystyried digwyddiadau penodol ar gyfer Torfaen yn eu gweithrediadau yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Awgrymaf eich bod yn edrych ar y seilwaith critigol yn eich ardal sydd yn y perygl mwyaf a pha gyfleoedd penodol y gallai newid yn yr hinsawdd eu creu. Gall defnyddio'r saith nod llesiant i fframio eich ymagwedd helpu pob partner i ddeall eu cyfraniad i'r mater arwyddocaol hyn. A yw'r ymagweddau presennol yn ddigonol? Sut fedrwrch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallech eu cymryd i warchod amaeth, cyflenwadau dŵr a thrawsgludo yn ystod digwyddiad tywydd eithafol. Mae prosiectau megis ['Glawlif' Dŵr Cymru'n](#) awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd, gyda chymunedau'n chwarae rôl gyfartal.

Mae cynnal eich amgylchedd naturiol hefyd yn gofyn am ymgyfraniad trigolion ac mae'n galonogol i weld eich bod yn awyddus i'w grymuso i ddefnyddio eu hamgylchedd i wella eu llesiant eu hunain. Gallai ennyn ymgyfraniad pobl a deall yr hyn sy'n eu hysgogi i ymddwyn mewn gwahanol ffyrdd eich helpu'n uniongyrchol gyda'ch ymdrechion. Pam mae traffig wedi cynyddu mor arwyddocaol yn y blynyddoedd diwethaf? Pam defnyddio ceir yn lle teithio llesol? Byddai adfer coetiroedd, annog pobl i ddefnyddio'u ceir yn llai aml a chynhyrchu llai o wastraff yn cael effaith uniongyrchol ar eich allyriadau. Gall cael pobl i ymgyfrannu mewn rhedeg eu cymunedau hefyd gael effaith cadarnhaol ar helpu i wneud yr amgylchedd lleol yn fwy cydnerth. Mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hól-troed carbon. Mae [cyfrifydd ôl-troed amgylcheddol Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt](#) hefyd yn ein hatgoffa ni i gyd o'n potensial i greu newid.

[Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Er mai cymharol isel yw maint yr allyriadau y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdano yng Nghymru, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n llawer ehangach ar allyriadau mewn meysydd megis trafniadaeth, ynni, y defnydd o dir a chaffael. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar y 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i archwilio sut mae'r gwasanaethau

cyhoeddus yng Nghymru'n medru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon hirdymor eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethgu.

Mae eich asesiad llesiant yn nodi capasiti ynni adnewyddadwy cryf yn eich sir. Buaswn yn eich cyngori i ystyried sut y gallwch annog hyn. Mae gennym ymrwymadau clir i gwrdd â hwynt yn nhermau lleihau carbon. Mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfangwbl erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad '[Dyfodol Ynni Clyfar i Gymru](#)' gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r adroddiad '[A Smart Energy Future for Rural Areas](#)' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Mae prif seminar [Policy Forum for Wales](#) i'w chynnal ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae gan y mwyafrif o FGCau amcanion drafft sy'n ymwneud â'u hamgylchedd naturiol, newid hinsawdd a thywydd eithafol, yn cynnwys Sir Benfro, Bro Morgannwg, Powys, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Amcan 3 – rhoi'r cychwyn gorau i blant a phobl ifanc mewn bywyd

Rydych yn gywir wrth asesu bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac anawsterau yn fwy tebygol o gael llesiant gwael ymhellach ymlaen yn eu bywydau. Mae'r rhan fwyaf o FGCau wedi drafftio amcanion sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn, a hoffwn ddeall, wrth i gamau gael eu cymryd i gwrdd â'u hamcan, beth sy'n mynd i newid ar bob lefel i wneud i hyn ddigwydd? Sut fydd gwasanaethau ar gyfer rhieni a theuluoedd arfaethedig yn newid yn Nhorfaen i ddarparu i blant y cychwyn gorau mewn bywyd? Pa dystiolaeth leol fyddwch yn ei defnyddio i ddeall modelau gwasanaethau llwyddiannus ac ymyriadau ataliol sy'n gweithio? Sut fedrai ffocysu, fel BGC, ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod arwain at welliant gwirionedd yn eich sefydliadau a'ch gwasanaethau? Mewnbyn pwy allai fod ei angen arnoch i ddeall hyn yn well? Pwy ddylai fod o gwmpas y bwrdd i wneud i hyn ddigwydd?

Rydych wedi cydnabod y cysylltiad rhwng yr amcan hwn a'ch amcanion drafft eraill, ond hoffwn gwestiynu'r ymholiad bod rhoi cychwyn gorau i blant mewn bywyd yn cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau cadarnhaol eraill. Er enghraifft, nid yw'r cysylltiad presennol a wnaed â phobl hŷn yn glir yn yr adran hon. Hefyd, mae gweithredu ar anghydraddoldeb yn gwneud mwy na chael effaith ar iechyd. Buaswn yn eich cyngori i weithio drwy facsimeiddio eich cyfraniad i addysgu'r nodau llesiant, yn hytrach na detholiad, i ddeall pa gysylltiadau y gellir eu gwneud yn fwy clir. Eto, mae'n bwysig i osod hwn o fewn cyd-destun Torfaen.

Buaswn hefyd yn eich annog i feddwl am dueddiadau hirdymor yr amcan hwn. Byddai sefyllfaoedd cymhleth economaidd-gymdeithasol mewn llawer o gymunedau yng Nghymru'n awgrymu nad yw teuluoedd yn derbyn y

cymorth priodol ar yr amser iawn, a bod cylchoedd yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf. Mae costau'r cychwyn gwaethaf mewn bywyd yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. [Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#): (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Atal sydd wrth wraidd yr amcan hwn a buaswn yn cynghori eich sefydliadau i gydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau. Wrth gwrs, mae'r amcan hwn yn ymwneud ag atal a chwalu'r cylch, sy'n berthnasol nid yn unig i blant sydd eto i gael eu geni ond y teuluoedd hynny sydd eisoes mewn angen a phobl ifanc sy'n debygol o ddod yn rhieni. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y [1000 o ddiwrnodau cyntaf](#) yn dangos sut y gall buddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf fod yn fanteisiol i'w llesiant yn gyffredinol.

Mae'n rhaid i gamau i gwrdd â'r amcan hwn fynd ymhell tu hwnt i'r hyn y gall y blynyddoedd cynnar, addysg a gwasanaethau iechyd ei gyflawni. Mae dros draean o gartrefi yn Nhorfaen mewn tlodi, yn codi i 45% ym Mlaenafon. Darganfu'r [London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree yn 2013](#) bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn.

Gall tlodi, camdriniaeth, gwahaniaethu a ffurfiau eraill o anfanteision gael effeithiau parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc gan effeithio'n ddifrifol ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae cyfleoedd yn ystod plentynod yn allweddol a'r ymyriadau cadarnhaol a roddir yn eu lle yn awr gan Gymru i amddiffyn a darparu ar gyfer plant yn helpu i sicrhau dyfodol mwy llewyrchus, iach a chydlynol i Gymru. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i gynghori y dylai cyrff cyhoeddus a BGCau roi mwy o ffocws ar hawliau a llesiant plant yn eu gwaith asesu parhaus a'u cynlluniau llesiant. Gall ffocysu ar hawliau plant helpu BGCau wrth iddynt ymgynghori, gwneud penderfyniadau a chynllunio eu rhaglenni. Byddai hyn yn cynnwys datblygu polisiâu sy'n ffocysu ar hawliau plant, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gynorthwyo'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth yn cael ei dreialu a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r swyddfa Comisiynydd Plant yn hapus i roi cyngor i chi ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n talu sylw i hawliau plant.

Fel y cyfryw, mae'n amser i ni roi'r gorau i feddwl am feichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar fel mater sy'n ymwneud yn unig ag iechyd, ac archwilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer herio darpariaeth gwasanaethau cyfredol gan ddefnyddio'r amcan hwn fel ffocws a'r saith nod llesiant cenedlaethol fel canllaw. Mae plant yn byw mewn teuluoedd, sy'n byw o fewn cymunedau ac maent yn cyrchu nifer o wasanaethau. [Mae'r New Economics Foundation yn ei adroddiad 'Backing the Future'](#) yn amlygu sut mae gennym rôl yn y dasg o fynd i'r afael â llesiant

materol ac amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac ysgolion - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i leihau'r nifer o blant a phobl ifanc sydd dros bwysau neu'n ordew yn Nhorfaen. Fel y cydnabyddir gan strategaeth Gwent, mae hyn yn fwy na mater iechyd a buaswn yn eich cynghori i feddwl am facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant wrth ymroi i gael effaith ar hyn fel BGC. Mae [Some studies](#) wedi dangos bod ffyniant economaidd a lefel eich cymwysterau yn gysylltiedig â'r tebygrwydd o fynd yn ordew. Ar hyn o bryd nid yw'n glir eich bod wedi meddwl am y cysylltiadau a'ch tirlun naturiol, teithio llesol, tlodi, cynllunio a thai wrth ystyried y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn.

Mae gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn rhoi tystiolaeth i ni sy'n dangos sut mae llesiant hirdymor yn cael ei effeithio gan ddigwyddiadau yn ystod plentyndod. Fel gwasanaethau cyhoeddus rydym yn aml yn trin symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, megis salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamdriniaeth ddomestig. Mae'r ffordd hon o weithio'n golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Mae angen i ni fabwysiadu ymagwedd ataliol ar bob lefel o'r system - cael gweithluoedd sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gan sicrhau hefyd bod y gwasanaethau y mae pobl yn eu cyrchu yn integredig. Fel BGC sy'n ffocysu ar y blynyddoedd cynnar, mae angen i chi adolygu cynlluniau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau tai, ac eraill i sicrhau eu bod yn ataliol, yn rhannu gwybodaeth a fydd yn rhoi'r gorau i ddelio â phobl mewn categorïau 'defnyddwyr gwasanaethau' ar wahân mewn seilos, a sicrhau eu bod yn gydgyssylltiedig ac yn ymroi yn weithgar i ddod o hyd i sefyllfaoedd gwell i deuluoedd a rhieni'r dyfodol.

Yn ddiweddar bu Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn gweithio gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad un peth arall i dalu sylw iddo yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gallai BGCau rannu arfer da, gan fod bron bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, ac sy'n rhoi cychwyn da i blant mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Rydym wedi gweithio hefyd gyda'r [Gyfnwidfa Arfer Da Cymru i greu gwefinar ar ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) ar y 7^{fed} Tachwedd, a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn. Bydd Alyson a minnau ar y panel a gallwch ofyn cwestiynau i ni yn fyw.

Mae'r rhan fwyaf o FGau wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, a rhoi cychwyn da i blant mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn eu plith: Cwm Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych.

[Amcan 4 - atal neu gyfyngu ar effaith cyflyrau iechyd difrifol drwy gynorthwyo ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda](#)

Fel gyda phob asesiad llesiant, gwnaethoch ddarganfod fod rhai agweddau ar iechyd yn gwaethygu i bobl yn Nhorfaen a bod disgwyliad oes yn isel iawn, gan gydbertyn i statws economaidd, tai ac amgylchedd. Yn arbennig, mae gordewdra ymhlith plant, materion iechyd meddwl ac ymddygiadau ffordd o fyw afiach a fabwsiedir ymhlith oedolion yn medru achosi clefydau difrifol ac arwain at ddiffyg annibyniaeth ymhlith pobl hŷn. Gwn eich bod wedi gwneud llawer o waith i ddeall sbardunwyr materion arbennig yn Nhorfaen a theimlaf nad yw'r camau yr ydych wedi eu cynnig ar hyn o bryd yn adlewyrchu hyn. Wrth i chi symud tuag at gyflawni'r amcan hwn, awgrymaf eich bod yn ymroi i wneud eich camau'n fwy penodol ac amserol. Sut y gwyddoch y bydd y gweithredu hyn yn gwneud gwahaniaeth? Pa dystiolaeth leol sydd ag angen i chi ei gasglu a'i ddefnyddio? Sut ydych chi'n gofyn i bartneriaethau eraill, megis y Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Llesiant i integreiddio eu gwaith yn effeithiol a helpu'r BGC i gwrdd â'r amcan hwn?

Mae galluogi pobl i wneud dewisiadau iechyd yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a sut y maent yn cysylltu ag eraill. Mae hyn yn ymwneud i raddau ag annog newid ymddygiad yn eich poblogaeth, sydd yn ôl llawer o adroddiadau yn 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed ['Behaviour Change is a Team Sport'](#) bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn mwy o weithgaredd corfforol. Bydd cydweithio â'r rhai 'anarferol' ac ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn yn eich galluogi i ddylanwadu ar y newid mewn ymddygiad a maccsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant.

Er enghraifft, beth yw rôl diwylliant yn y dasg o alluogi plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut fedr pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i reoli eu hiechyd? Mae [Cyngor Celfyddydau Cymru'n amlinellu rhai o'r manteision i iechyd](#), cydlynid a sgiliau'r boblogaeth sy'n deillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Gallai cydweithio gyda chyrff cyhoeddus cenedlaethol sydd ynghlwm wrth y Ddeddf, megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru eich helpu i effeithio ar ymgyfraniad pobl yn y weithred o wella eu llesiant hwy eu hunain.

Nid yw eich camau drafft yn dangos eto sut yr ydych wedi ystyried atal a beth, yng nghyd-destun Torfaen, yr ydych yn ceisio ei atal a phryd. Er enghraifft mae traean o oedolion Torfaen yn profi problemau iechyd meddwl. Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Os ydy'r symptomau'n bodoli pan fydd plentyn mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Os gwyddom fod y GIG ar gyfartaledd yn gwario dros £21 miliwn ar bresgripsiynau gwrth-iselder, sut fedrwn ni weithredu'n gynt? Darganfu [Adroddiad Plentyndod Da Cymdeithas y Plant 2017](#) bod hapusrwydd plant ar ei isaf ers 2010 a bod hyn yn rhannol am eu bod yn ofni trosedd. Mae [Caerdydd wedi treialu gwarsi iechyd meddwl i blant](#) ac mae adroddiad newydd oddi wrth Respublica a Barnado: [Making young minds matter](#) yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl. Buaswn yn eich cyngori i ennyn ymgyfraniad plant a

phobl ifanc yn y broses o ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth priodol, dylunio gwahanol wasanaethau a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon. Dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn cydnabod gwerth cyrchu manau agored gwyrdd i iechyd corfforol a meddyliol. Amcangyfrifir bod y manteision i iechyd o fyw â golygfa o fan agored gwyrdd yn werth i fyny at £300 y person y flwyddyn. Sut ydych chi'n ystyried ansawdd a mynediad i fannau agored gwyrdd wrth gwrrd â'r amcan hwn? Mae gan yr adroddiad hwn o '[UCL Institute of Health Equity](#)' rai astudiaethau achos sy'n gwneud rhai cysylltiadau rhwng iechyd ac anghydraddoldebau, gan gysylltu hefyd â'ch trydydd amcan. Mae [Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru](#) wedi dangos yr ystod o effeithiau cadarnhaol y gall cerdded yn gyson yn yr amgylchedd naturiol, mewn grŵp, ei gael ar iechyd a llesiant. Mewn achosion o drin afiechyd, mae hyn weithiau'n cael ei alw'n bresgreibio cymdeithasol. Mae'r [astudiaeth hon ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi gwybodaeth ar wahanol fodolau ac mae'n rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC '[The doctor who gave up drugs](#)', sawl enghraifft o'r modd y gall ymagwedd amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy ffit yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddiybnyu ar bresgripsiynau. Sut fedr y BGC ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio ail-bwrpasu adnoddau a chefnogi mentrau eraill tebyg?

Wrth gwrs, mae atal iechyd corfforol ac iechyd meddyliol gwael yn galluogi pobl i heneiddio'n dda. Fel gydag iechyd cyffredinol, mae heneiddio'n ymwneud hefyd â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eich poblogaeth. Er enghraifft, mae ymchwil gan [Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) wedi dangos effaith arwahanrwydd ar ein hiechyd corfforol a meddyliol, gan awgrymu bod unigrwydd yn ymwneud â pha mor dda yw cysylltiad pobl â'u cymunedau'n gorfforol ac â themlo bod ganddynt gyfraniad i'w wneud. Rwy'n eich cynghori i gydnabod gymaint o ased yw pobl hyn yn nhermau gofalu, gwirfoddoli a chyfrannu at yr economi ar gyfer gwella llesiant. Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hyn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant gyda llawer o bobl hyn eu hunain yn gwirfoddoli. Mae yna lawer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnetheredd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Siediau Dynion Cymru](#), sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo. Mae [gwaith y Comisiynydd Pobl Hyn](#) yn arbennig o ddefnyddiol wrth archwilio'r camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn ac mae'n cynnwys ei chyfarwyddyd diweddar i FGCa.

Wrth feddwl am dueddiadau hirdymor, gofynnwch i chi eich hunain a yw'r ddarpariaeth bresennol yn addas ar gyfer rheoli'r mater hwn sydd ar gynydd? Ble allai fod arnynt angen mwy o weithredu ar y cyd? Ar hyn o bryd, prin fod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd yn delio â'r galw presennol ac, yn anffodus, mae llawer yn edrych ar adnoddau sy'n seiliedig ar fodolau traddodiadol i ymyrryd mewn argyfwng i ddelio â hyn. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl a bydd gennyf ddi-ddordeb i weld sut y byddwch yn dylanwadu ar y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Llesiant wrth wneud hynny.

Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg cyfeillgar i oed, atal pobl rhag bod mewn angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi. Mae'r [adroddiad hwn gan Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Er nad yw technoleg yn mynd i ddarparu'r holl atebion i arwahanrwydd yn ein cymunedau, meddylwch am yr effaith hirdymor a fedrai ei gael ar ein poblogaeth. Yn ein heconomi sy'n rhannu, a allai fod yna atebion technegol ar-lein a fedr atal arwahanrwydd cymdeithasol, megis cronfeydd ceir, neu drafnidiaeth gymunedol wedi eu cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Mae'r cysyniad o ['Hyperbentref'](#) a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, [sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg](#). Sut ydych chi wedi meddwl am y posibiladau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn. Sut fedr pobl hŷn gysylltu mwy â chyfleoedd cymdeithasol a gwirfoddoli? A yw gwirfoddolwyr ar hyn o bryd yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC i helpu i ystyried sut y gallant eich helpu i gwrdd â'ch amcanion?

Mae gan Gymru'r cyfle i ddatblygu tai sy'n cwrdd yn well â'r newid demograffig, a mabwysiadu technoleg sy'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol am amser hwy. Mae rhaglenni fel [Dinasoedd Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed gan addasu adeiladau, cynlluniau trafnidiaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hŷn i gadw'n iach ac mewn cysylltiad â phethau sydd o bwys iddynt am amser hwy; mae [Laguna Woods](#), y ddinas gyntaf yn yr UE sydd wedi ei neilltuo i bobl hŷn, a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog. Yn ogystal â chyfrifoldebau'n ymwneud â chynllunio a seilwaith dylunio, mae yna nifer o brosiectau arloesol byd-eang sy'n annog tai preifat, sy'n rhannu cyfleusterau, tai a gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu. [Mae myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal](#) mewn cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hŷn; mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau Rhannu Cartref](#), ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, [mae'r Almaen wedi cyflwyno tai sy'n pontio'r cenedlaethau i bobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen](#). Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn barod i symud i fyw o fewn 1 cilomedr i'w neiniau a'u teidiau. Mae'r rhain i gyd yn gamau arloesol sy'n effeithio ar heneiddio'n dda.

Mae BGCau eraill sy'n ymroi i wella iechyd yn cynnwys Conwy/Sir Ddinbych; Blaenau Gwent; Ceredigion; Sir Fynwy; a Phowys.

Amcan 5 - mynd i'r afael â phatrymau tlodi sy'n pontio cenedlaethau a datblygu cydnherthedd economaidd

Fel y nodwyd yn eich asesiad mae tlodi'n fater arwyddocaol i bobl yn Nhorfaen. Mae'r amcan drafft hwn yn eich cysylltu ag amcanion eraill a gellir archwilio'r cysylltiadau hyn ymhellach yn y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion drafft. Mae cynorthwyo pobl allan o dlodi'n ymwneud nid yn unig â llesiant economaidd, ond â gweld gwerth pobl mewn ffordd wahanol. Er y bydd rhesymau lawer am yr amddifadedd a brofir a dim datrysiadau hawdd, mae yna gamau y gallech eu cymryd fel BGC i gryfhau cydnherthedd yr ardaloedd hyn ac atal effeithiau niweidiol tlodi.

Mae'r amcan hwn yn hawlio arweinyddiaeth gref, fel y nodais uchod, sy'n treiddio drwy bob un o'ch sefydliadau. I gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, bydd angen i chi fod yn ddewr gan greu cronfa o adnoddau, newid polisiâu a chymryd risgiau drwy roi cynnig ar ymagweddau gwahanol. Bydd angen i chi gyfleu'r newidiadau hyn o fewn pob un o'ch sefydliadau. Mae'r saith maes newid yn y Ddeddf: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg yn weithrediadau canolog sefydliadol, lle byddai defnyddio'r pum dull o weithio yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio'r modd yr ydych yn gweithio ac yn rhoi man cychwyn i chi ar gyfer yr effaith y gallwch ei gael fel cyflogwyr.

Mae'r mwyafrif o drigolion Torfaen mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r sector cyhoeddus (oddeutu traean) a byddant yn cyfrannu miliynau i'r economi. Buaswn yn eich cyngori i edrych ar yr effaith economaidd y gallwch ei gael fel darparwyr y sector cyhoeddus yn y meysydd hyn ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, sut fedr ymrwymiad ar y cyd i gaffael cynaliadwy, lleol, fod o fudd i'ch economi lleol? Pa gyfleoedd cyflogaeth fedrwch chi eu cynnig, megis cynlluniau prentisiaethau cydweithredol, i bobl sy'n byw ymhell o'r farchnad swyddi? Sut fedrwch chi annog swyddi yn yr economi sylfaenol, sy'n ymwneud â gofal lleol, y diwydiannau manwerthu a bwyd?

Bwriad y pum dull o weithio yw herio sut yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd a darparu lens fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn ar gyfer delio â phroblemau. Mae ennyn ymgyfraniad pobl yn ganolog i herio'r system oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae deall y mater o wahanol bersbectifau yn bwysig cyn i chi weithredu i gynyddu cydnherthedd economaidd. Beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl rhan cael gwaith dibynadwy gyda thâl da? Sut mae pobl wedi syrthio i galedi? Pa effaith a gaiff ffactorau cymunedol fel tai, diogelwch a chyfleusterau ar ganlyniadau pobl? Beth sy'n effeithio ar fywydau pobl y gallech chi, fel gwasanaethau cyhoeddus, ymroi i'w hatal? Mae'n bwysig eich bod yn ail-bwrpasu eich adnoddau i wrando'n astud ac ennyn ymgyfraniad pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Torfaen wrth ennill dealltwriaeth o'r modd y maent yn canfod asedau a diffygion eu cymuned. Mae'r enghraifft hon "[Why poor people don't plan long-term](#)" yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth oresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a gynhwysir [yn yr adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu ymagwedd holistig ac ataliol tuag at fywydau pobl. Bydd gweld pethau o bersbectif pobl eraill, o bob cefndir, yn eich helpu i gyfrannu tuag at Dorfaen fwy cydradd. Hoffwn eich gweld yn myfyrio ar hyn wrth ddatblygu eich camau i gwrdd â'r amcan hwn.

Mewn llawer o'r asesiadau llesiant, darllenais fod cymunedau sy'n cael eu brandio fel rhai 'difreintiedig' neu 'mewn tloidi' gan ystadegau, yn aml iawn ymhell o fod yn diffinio eu hunain fel hynny ac roedd llawer o bobl yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd naturiol, eu hadeiladau cymunedol a'r ffordd yr oedd pobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd. Bydd adnabod asedau'r ardaloedd hyn ac ennyn ymgyfraniad pobl wrth adeiladu arnynt yn eich helpu i ddarganfod gyda'ch gilydd ddatrysiadau a fydd yn lleihau anghydraddoldeb. Fel y cyfryw, dylech edrych tu hwnt i'r agwedd economaidd ar leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd, wrth ystyried bod y rhai hynny sy'n byw mewn tloidi hefyd mewn perygl o ddiodeff effeithiau amgylcheddol, yn cynnwys pobl sydd ymhell i ffwrdd o fannau agored gwyrdd. Mae allyriadau aer yn aml yn uwch mewn ardaloedd difreintiedig ac, er y bydd yna lawer o

resymau, mae afiechydon anadlol yn llawer mwy cyffredin mewn ardaloedd difreintiedig. Sut mae hyn yn cysylltu â'ch amcan blaenorol ar iechyd?

Mae ansawdd tai yn fater sy'n gyson yn codi o amddifadedd, â ganddo effaith ar iechyd, cydlynad cymdeithasol ac arian personol. Fel mae eich asesiad yn nodi, mae ansawdd tai yn amrywio ar draws Torfaen yn nhermau effeithlonrwydd ynni, a fedr effeithio ar gyllid ac iechyd. Bydd mynd i'r afael â hyn yn effeithio ar nifer o'ch amcanion, sy'n berthnasol i'r cychwyn gorau mewn bywyd ac yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella sgiliau lleol. Sut ydych chi'n ystyried gweithredu ar y cysylltiadau hyn? Rwy'n dymuno gweld ystyriaeth fwy amlwg o'r integreiddio rhwng y materion hyn yn eich cynllun.

Erbyn 2036 bydd 29% o stoc dai Cymru dros 90 mlwydd oed. Mae ystadegau diweddar oddi wrth Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru'n dangos bod 1 o bob 3 chartref yng Nghymru'n byw mewn tlodi tanwydd, gyda derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag oerfel yn cyrraedd cost o dros £100 miliwn gan achosi 475 o farwolaethau'r flwyddyn. Mae mwy yn marw oherwydd tlodi tanwydd heddiw yng Nghymru nag o effeithiau alcohol. Bydd cymryd camau i leddfu tlodi tanwydd a gwella ansawdd tai yn gyffredinol yn arwain at fuddiannau mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus. Felly, byddai cydweithio nawr gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid preifat i benderfynu sut y gall tai sy'n bodoli eisoes ddod yn fwy ynni effeithlon fod yn gam y byddai'r BGC yn dymuno ei archwilio. Mae yna nifer o enghreifftiau arloesol. Mae Safon Passivhaus yn un dull o adeiladu ac ailwampio cartrefi ar gyfer y dyfodol (www.passivhaus.org.uk). Mae [Comisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd yn rhedeg gweithdai, hyfforddiant a chyrtsiau achrededig ar safon diwydiant Adeiladu ar gyfer Bywyd12 sydd wedi helpu cymunedau lleol, awdurdodau lleol a datblygwyr i weithio gyda'r un amcan cyffredin o greu lleoedd da i bobl fyw ynddynt.

Eto, mae amcanion drafft sy'n ymwneud â thlodi a lleihau anghydraddoldeb yn gyffredin ar draws Cymru, yn cynnwys BGCau Caerffili, Caerdydd, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Powys a Bro Morgannwg.

Amcan 6 – gwella sgiliau lleol drwy gynllunio gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli

Mae eich asesiad o lesiant economaidd yn nodi ystod o faterion cymhleth ac maent yn gydgysylltiedig nid yn unig o fewn y maes hwn o lesiant ond ar draws y tri arall. Fel yr oeddwn wedi cynghori yn fy llythyr ar eich asesiad llesiant, i ddeall beth yw'r materion hollbwysig a sut y maent yn rhyngweithio â'i gilydd bydd angen i chi dwrio'n ddyfnach i mewn i'r data cyfredol a'r data ar dueddiadau'r dyfodol, yn lleol a rhanbarthol. Bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i roi ystyr i'r amcan hwn yng nghyd-destun llesiant ehangach a darparu ar eich cyfer ddealltwriaeth rymus o'r anawsterau a wynebwr gan bobl Torfaen ond hefyd y cyfleoedd a'r asedau - lle mae lle ar gyfer arloesedd e.e. economi carbon isel, a'r potensial ar gyfer creu swyddi gweddus, yn arbennig yng ngoleuni'ch darganfyddiadau yn eich asesiad llesiant.

Cefais fy nghalonogi i weld eich bod wedi cychwyn ystyried pa rôl y gallwch ei chwarae fel arweinyddion y sector cyhoeddus a gwirfoddol yn Nhorfaen a dylech werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar drefniadau partneriaeth a sefydliadau eraill a sefydliadau yng Nghymru. I gymryd camau tuag at facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant a gwella llesiant economaidd, bydd angen i chi fod yn ddewr pan fyddwch yn creu cronfa o

adnoddau, yn newid polisïau ac yn cymryd risgiau drwy roi cynnig ar ymagweddau gwahanol. Bydd angen i chi gyfleu'r newidiadau hyn o fewn pob un o'ch sefydliadau. Bydd angen i chi fod yn glir am y modd yr ydych wedi myfyrio'n drylwyr ar y diffiniadau o bob un o'r nodau llesiant, yn cynnwys y nod ar gyfer Cymru Lewyrchus. Mae dyfodol gwaith yn ansicr. Mae swyddi sy'n bodoli nawr yn rhai nad oedd son amdanynt pan adewais i'r ysgol, a bydd yr un fath yn wir yn hanes ein plant. Mae'r [adroddiad Workforce of the Future](#) yn rhagweld y bydd 65 y cant o'r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gweithio mewn swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Rhagwelir y bydd ffurf a natur gwaith yn newid. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor wrth benderfynu ar eich camau ac wrth alluogi pobl i addasu eu sgiliau fel eu bod yn addas ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol? Sut fedrwyd chi weithredu nawr ac ymroi i ddarganfod sgiliau ar gyfer pobl ifanc sy'n addas ar gyfer y dyfodol? Pa sgiliau bywyd allai fod angen ar eich plant i lwyddo yng Nghasnewydd yn y dyfodol? Mae'r adroddiad [Workforce of the Future](#) hefyd yn awgrymu bod gwaith seiliedig ar brosiectau yn debygol o ddod yn fwy eang, gyda sgiliau fel creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach yn y dyfodol na gwybodaeth benodol. Mae gwaith tîm, cyfathrebu a hyder mor werthfawr i bobl ifanc â graddau da pan fyddant yn cychwyn gwaith, fel y nodwyd yn y '[Prince's Trust recent Results for Life report](#)'. Sut fedr eich sefydliadau drefnu prentisiaethau i bob oed i ddysgu'r sgiliau hyn?

[Yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd - sut ydych chi wedi ystyried yr effaith a gaiff yr awtomeiddio hyn ar lawer o'r rolau presennol? Sut fedrwyd chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaeth cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol a chymdeithasol, sy'n ymwneud â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiannau bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac yn llesol i'r economi lleol? Mae adroddiad diweddar gan [Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol?

Dylech ystyried pwy arall a allai fod ag angen i chi gydweithio gyda hwynt wrth ddatblygu'r amcanion drafft, megis ysgolion, busnesau, Coleg y Cymoedd, prifysgolion a mentrau cymdeithasol. Pa gyfrifoldebau cymdeithasol a fabwysiadwyd gan y sector preifat yn yr ardal? Sut mae busnesau yn dod at ei gilydd i sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor ac a oes gan y BGC unrhyw ddylanwad yn hyn o beth? Pa gyfleoedd y gellid eu cynnig i fentrau cymunedol newydd drwy gydweithio rhwng y BGC a'r sector preifat a darparwyr addysg? Pa ymchwil sydd wedi cael ei wneud am yr economi lleol? Sut fedrech chi annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol a galluogi gwell dysgu ar gyfer pobl iau a phobl hyn?

Tra bod darparu cyfleoedd i bobl ddysgu a datblygu yn beth da, y peth pwysicaf yw galluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Felly, buaswn yn eich cynghori i dwrio'n ddyfnach i mewn i'ch data yn y fan hon i ddeall y darlun cyflawn. Gofynnwch i chi eich hunain beth fyddai mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth i ddysgu a datblygiad pobl yn Nhorfaen drwy gydol eu bywydau? Rydych wedi cydnabod yn eich dadansoddiad ymatebol y gallai rhwystrau i gyfranogiad for yn niferus, "rhwystrau sefydliadol (e.e. lle, amser, cost dysgu), neu amgylchiadau personol (megis gofynion gofal plant, mynediad i drafndiaeth gyhoeddus, materion iechyd), materion arwyddocaol yn ymwneud â theimladau o ddiffyg hyder a hunan-barch, a chanfyddiadau negyddol o ddysgu sydd

wedi gwreiddio. Bydd angen datblygu sgiliau meddal megis hyder personol a hunan-sicrwydd a chwalu rhwystrau eraill cyn y gellir ennill sgiliau mwy technegol". Sut fedrwn chi weithio i adnabod a dileu'r rhwystrau hyn i bobl?

Beth arall sy'n cael effaith ar fywydau pobl y gallech chi, fel gwasanaethau cyhoeddus, eu hatal. Er enghraifft comisiynwyd Social Finance gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w helpu i fynd i'r afael â phroblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn, mewn gwirionedd, yw nad cyflawniadau academaidd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi dod o blith y 25% o rai 17 - 19 mlwydd oed, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod edrych ar y mater mewn dull mwy holistig yn egluro'r camau y gallwch eu cymryd fel BGC i wireddu eich amcanion.

Sut fedr eich polisïau hyrwyddo cydraddoldeb mewn busnes ac ymroi i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Mae Comisiynydd yr iaith Gymraeg yn gweithio gyda fy nhîm i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, fel y nodir yn 'Cymraeg 2050'. Yn aml, mae pobl sy'n setlo yng Nghymru'n awyddus i ddydgu'r iaith fel arwydd o'u hunaniaeth newydd. Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwf, beth am gyflwyno mentrau sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n magsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant?

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyfle cyffrous i Dde Cymru, ond yn y gorffennol mynegais fy mhryder fod y fargen yn cael ei dwyn yn ei blaen gyda'r rhai hynny sy'n ymgyfrannu ynddi yn gweld y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhywbeth yr ydych yn asesu eich gweithrediadau yn ei herbyn, yn hytrach nag ar gyfer llunio sut mae pethau'n cael eu cynllunio a'u cytuno. Rydych yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r cyfleoedd hyn fel prifddinas sy'n elwa o'r buddsoddiad. Buaswn yn eich cynghori, fel pobl sydd mewn sefyllfaedd o arweinyddiaeth, bod angen i chi ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gan gadw mewn golwg lesiant economaidd, amgylcheddol cymdeithasol a diwylliannol pobl ledled y rhanbarth. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tlodi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Felly, byddai dehongli gwerth y Ddinas Ranbarth mewn termau economaidd pur yn gamgymeriad. Ydy, mae hwn yn gyfle economaidd cadarnhaol ond sut fedrwn ni gydbwysu ein cyfrifoldeb i ddatblygu dinas ranbarth sy'n gynaliadwy ac sy'n gosod pobl yn y canol. Mae [fy llythyr i'r rhai a ymgyfrannodd yn Rhagfyr 2016](#), gobeithio yn rhoi i chi beth cyngor ar y mater, ac yn ddiweddar [gwneuthum hefyd sylw mewn ymateb i adroddiad](#) diweddar Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "[Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy.](#)"

Mae nifer o FGau eraill yn drafftio amcanion a chmau tebyg yn cynnwys Powys, Caerdydd, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Fynwy a Chaerffili.

Amcan 7 – creu cymunedau diogel a hybu cydlynid cymunedol

Fel arweinwyr asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o hybu a chynorthwyo cydlynid cymunedol. Mae'r potensial ar gyfer eich rôl yn y maes hwn yn mynd tu hwnt i adeiladu gallu cymunedol drwy hwyluso rhwydweithio a chydweithio, a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Mae'r ymchwil a ddogfennwyd yn ['What Works in Community Cohesion'](#) hefyd yn rhoi arweiniad defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau o gydlynid cymunedol. Dylai amrywiaeth Cymru gael ei ddathlu ond fel y disgrifia eich asesiad llesiant, dim ond dau draean o bobl sy'n teimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod at ei gilydd yn Nhorfaen. Gall gwahaniaethau tybiedig greu tensiwn mewn cymunedau ac mae pobl wedi dweud eu bod yn teimlo nad ydynt yn perthyn.

Mae'r maes gwaith hwn yn un sy'n achosi teimladau anghysurus ymhlith aelodau BGCau, ond mae teimlad o gymuned ac o berthyn yn hanfodol ar gyfer llesiant da. Felly rwy'n eich cynghori i ennyn ymgyfraniad rhai 'anarferol' a'ch bod yn gweithio gyda hwynt i ddefnyddio'r diffiniad o'r saith nod llesiant fel canllaw. Fel y gwyddoch mai Tasglu'r Cymoedd ar hyn o bryd yn casglu storïau fel rhan o arolwg ['Living in the Valleys, My Community'](#). Maent eisoes wedi rhoi blaenoriaeth i gymunedau lleol pobl. Dim ond drwy ddeall y gwahaniaethau ar draws cymunedau drwy wrando ar bobl a threulio amser yno y gallwch gychwyn gweld lle gall y BGC ychwanegu gwerth. Nid ymwneud yn unig â'n hiechyd y mae llesiant, ond ein bywydau cymdeithasol, ein teimladau o berthyn, ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol, ein hincwm a'n bywyd cymunedol - ac mae ein hiechyd yn dibynnu ar bob un o'r rhain.

Buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a gweithio gyda [Participation Cymru](#), a fedr gynorthwyo eich swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru](#) eich helpu i ystyried cynlluniau bancio amser, i roi enghreifftiau o gyd-gynhyrchu da a'ch helpu i adnabod ac ymgysylltu ag arweinyddion cymunedol. Dylai'r gwaith hwn fod yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar adnoddau, gan helpu pobl ar draws Torfaen i adnabod eu cryfderau, i weld beth sy'n gadarnhaol am eu cymunedau ac adeiladu ar hynny. Sut fedr chwalo rhwystrau rhwng cymunedau daeryddol a demograffig helpu i newid rhagdybiaethau?

Adnabu eich asesiad llesiant ysbryd cymunedol fel prif ased Torfaen. Hoffwn weld dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y gallwch sianelu hyn i gyfeiriad gweithredu cadarnhaol a chredaf mai'r dull gorau o ddysgu hyn yw drwy brofiadau bywyd y bobl sy'n byw yno. Bydd ennyn ymgyfraniad eich staff, mynd o le i le i siarad â phobl a chydweithio gyda hwynt i gyflawni prosiectau yn fodd o ennill ymddiriedaeth cymunedau a gweld canlyniadau cadarnhaol. Mae'r prosiect a ariannwyd gan 'Invest Local Big Lottery' eisoes yn gweithio ar draws Cymru yn y ffordd hon drwy'r rhaglen [Ymddireiedolaeth Adeiladu Cymunedau](#). Efallai nad ydych yn gwybod pwy yw arweinyddion cymunedol posibl mewn rhai ardaloedd, felly os yr ydych wedi ymrwymo i hyn, ail-bwrpaswch eich adnoddau i wneud mwy o waith mewn cymunedau, i gychwyn adnabod lle yn yr un modd ag y mae'r bobl sy'n byw yno yn ei adnabod.

Bydd llawer o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n hwyl ac o les iddynt hwy, felly sut fedrwch chi ddefnyddio chwaraeon, treftadaeth, iaith, gweithgareddau awyr agored a diwylliant i alluogi pobl i gymryd rhan? Fel y gwyddom nid yw iaith yn cyfyngu ar chwaraeon a gall fod yn ffordd bwerus iawn o ddwyn pobl at ei gilydd o wahanol gefndiroedd. Mae Chwaraeon Cymru'n awyddus i weithio gyda BGCau ar y modd y gallant facsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant ac rwyf eisoes wedi cynghori ar yr effaith y gall perfformio, creu, coginio a garddio ei gael ar iechyd a chydlynad.

Gallai deall profiadau bywyd pobl roi i chi fewnwelediad pwysig i'r modd y mae gwahanol gymunedau'n byw a ble byddai eich gwasanaethau o'r cymorth mwyaf. Sut fedrwch chi ddwyn partneriaid at ei gilydd i gydweithio ar faterion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ennyn ymgyfraniad cymunedau i ddeall yr achosion sydd wrth wraidd y mater, gan ddarganfod datrysiadau ac integreiddio eich gwasanaethau i alluogi ymateb cyflym. Mae rhannu data a gwybodaeth yn ganolog wrth fabwysiadu'r ymagwedd hon; rwy'n eich cynghori i gymryd camau ar unwaith i ddeall rolau eich gilydd, yr wybodaeth sydd gennych, i grynhoi adnoddau ac ystyried ail-leoli timoedd i atal y materion hyn rhag digwydd mewn lleoliadau arbennig.

Mae mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar le yn medru arwain at ganlyniadau llawer mwy - fel y dengys y gwaith a wneir gan ['Nurture Development'](#) ynghylch Datblygiad Cymunedol Seiliedig ar Asedau. [Mae'r astudiaeth 'Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredegar](#) hefyd yn rhoi tystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant. Er enghraifft, oes yna ffyrdd y gallai'r BGC eu defnyddio i annog a gwobrwyo gweithgaredd fel hwn gan gymunedau mewn dulliau a fyddai yn eich helpu i gwrdd â'ch amcan mewn ardaloedd arbennig? Mae adroddiad y [Sefydliad Royal Town Planning, 'Poverty, Place and Inequality'](#) yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng ac o fewn cymunedau.

Yn gysylltiedig â hyn, fel BGC, mae gennych rôl mewn cynllunio, tai a thrawsgludo, creu mannau sy'n addasadwy ac yn abl i newid dros y ddwy genhedlaeth nesaf o leiaf. Rwy'n eich cynghori i ddefnyddio'r saith nod llesiant fel ffrâm i'w ddefnyddio wrth i chi feddwl am gynllunio a datblygu cymunedau. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o dai hynaf Cymru'n ddiffygiol mewn effeithlonrwydd ynni; mae tai yn cael eu hadeiladu ar gyfer teuluoedd a heb hyblygrwydd yn eu defnydd, ac rydym yn gyson yn gweld ystadau mawrion yn cael eu hadeiladu gydag ychydig iawn o sylw i deithio llesol, wedi eu lleoli ymhell o siopau, tafarnau, mannau agored gwyrddion neu las neu wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn, wrth gwrs, yn cysylltu â nifer o'ch amcanion eraill - tyfu'n hŷn, cael cychwyn da mewn bywyd, helpu pobl i deimlo'n ddiogel a gwella iechyd. Hefyd, heb amheuaeth, os yr ydym i newid arferion teithio pobl a lleihau ein hallyriadau carbon, mae arnom angen tai mewn cymunedau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae [Llywodraeth Cymru wedi lansio cronfa £20 miliwn i ariannu tai arloesol](#) a dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y gronfa hon yn cynorthwyo cyflenwad tai fforddiadwy a hefyd welliannau yn ansawdd y tai a gaiff eu darparu. Dylai BGCau fod yn ymroi i ddylanwadu ar y modd y caiff y gronfa hon ei defnyddio a deall yr effaith a gaiff ar Gymru i drwytho eu camau hirdymor ar dai.

Wrth gynllunio manau agored cymunedol, sut ydych chi'n ennyn ymgyfraniad pobl yn y defnydd a wneir ohonynt? Gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ddull o annog perchnogaeth gymunedol, gan ddod â phobl at ei gilydd mewn ardaloedd lle nad oes cyfleuster cymunedol, ac yn achos parciau neu fannau agored gwyrdd, ganiatáu gwell defnydd o'r amgylchedd naturiol. Ar draws y DU, mae caledi wedi golygu bod adeiladau, tir a gwasanaethau wedi cael eu trosglwyddo i'r gymuned, ac mewn llawer achos mae hyn wedi cynyddu llesiant y bobl oedd yn ymgyfrannu. Sut fedrwch chi wella'r defnydd o'r ystâd gyhoeddus gyfunol sydd gennych yng Nghasnewydd? [Mae'r Grŵp Gweithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru](#) wedi nodi rhai enghreifftiau Cymreig y byddwch efallai'n dymuno eu harchwilio, ond mae yna lawer o sefydliadau eraill sy'n hybu gwell defnydd o dir ac asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis [Shared Assets](#), [Nurture Development](#) a [Locality](#) gyda'r bwriad o annog cymunedau i ffynnu.

Ydych chi wedi ystyried sut y gallai pobl ymgyfrannu mewn rhoi adborth a llunio gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol? Sut fedrwch chi ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth gymunedol? Mae digideiddio'n golygu bod y byd yn awr yn lle gwahanol ac mae hyn yn debygol o barhau dros yr hirdymor. Mae [Digital Childhoods](#) gan Barnados yn dangos pa mor gyflym mae technoleg yn symud a'r modd y mae plant yn awr yn defnyddio gwybodaeth. Ar hyn o bryd mae plant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed yn treulio chwe awr a hanner bob dydd o flaen sgrin; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau](#) cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion a [43% o 'genhedlaeth y mileniwm' yn cael eu sbarduno i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#). Sut mae eich sefydliadau chi yn harneisio pŵer technoleg i helpu i gwrdd â'r amcan hwn? Sut ellir ei ddefnyddio mewn dull cadarnhaol? Pa newidiadau y gall y bydd angen i chi eu gwneud i'ch systemau sefydliadol a'ch polisïau i alluogi pobl i wneud hyn?

Mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y ffordd sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, nid yn orchwyl ychwanegol. Mae ['Sir Fynwy Agored'](#) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried gosod amcanion sy'n ymwneud â datblygu/cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, cymunedau diogel a hyderus. Yn arbennig, efallai y byddwch yn awyddus i rannu syniadau gyda BGCau Blaenau Gwent, Ceredigion, Caerdydd a Phowys, sydd wedi rhoi amcanion drafft tebyg i mi.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgyngori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych chi angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a macsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthydych chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Torfaen ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe